Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Y Tonnau
# Canolfan Hamdden
# Y Bermo
# Gwynedd
# LL42 1NF

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2019

## gan

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

## a

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Y Tonnau

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin y Tonnau |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Lorna Harrod a Sian Gwen Evans |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Lorna Harrod a Sian Gwen Evans |
| Nifer y lleoedd | 28 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 3 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9:15 y.b. a 3:15 y.h. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydi |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydi |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Ydi – Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu "cynnig gweithredol" y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 17/02/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 11/05/2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 29/01/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Ni roddwyd barn** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau cyfleoedd cyson i'r plant ailadrodd ac atgyfnerthu geirfa a chystrawennau newydd.

A2 Sicrhau mwy o amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau yn yr ardal greadigol i annog y plant i ddewis ohonynt yn annibynnol.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn hapus ac yn fodlon, ac yn ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni. Maent yn gyfarwydd iawn gyda'r drefn ddyddiol ac wedi ffurfio perthynas bositif gyda'r ymarferwyr, sy'n rhoi teimlad o sicrwydd iddynt. Mae bron pob plentyn yn ymateb yn dda i ganmoliaeth, gyda llawer yn dangos balchder tuag at eu gwaith ac yn awyddus i rannu eu llwyddiannau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dewis sut maent yn treulio eu hamser yn y lleoliad yn hyderus. Mae bron pob plentyn yn hyderus i fynegi eu hunain, rhannu syniadau ac ateb cwestiynau syml ac yn gwybod y bydd eu barn yn cael ei barchu gan ymarferwyr. Er enghraifft, mae plant yn medru dewis pa bryd maent eisiau cwblhau'r gweithgareddau strwythuredig sydd ar gael.

Mae rhan fwyaf y plant wedi cychwyn gwneud ffrindiau. Maent yn rhyngweithio'n dda gyda'u cyfoedion ac yn mwynhau chwarae a chwblhau tasgau gyda'i gilydd. Er enghraifft, maent yn cydweithio a sgwrsio â'i gilydd yn hyderus wrth adeiladu trac ar gyfer y trenau bach. Yn ystod amser byrbryd ac amser cinio, mae plant yn cymdeithasu gyda'i gilydd yn dda ac yn hapus wrth sgwrsio gyda ffrindiau. Mae plant hŷn yn annog plant eraill i gymryd rhan yn eu chwarae, er enghraifft, wrth greu sioe ac yn ysgrifennu pwy sydd yn mynd i gymryd rhan pa gymeriad.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda wrth fynd i'r afael â thasgau ac yn mwynhau arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol. Er enghraifft, maent yn arbrofi a cheisio tyllu pengwiniaid bach allan o flociau rhew.

Mae bron bob plentyn yn dewis gweithgareddau yn annibynnol a dilyn eu diddordebau. Er enghraifft, maent yn arbrofi gyda thabled rhyngweithiol gan fynd o amgylch yr ystafell yn tynnu lluniau heb ymyrraeth oedolyn. Mae rhan fwyaf y plant yn datblygu medrau annibynnol da ac mae ymarferwyr yn annog hyn yn ystod gweithgareddau. Enghraifft effeithiol o hyn yw annog y plant i newid dillad doli gan sicrhau eu bod yn ofalus wrth ymdrin â hi. Yn ystod amser byrbryd, mae bron pob plentyn yn awyddus i wneud pethau drostynt ei hunain, er enghraifft, golchi dwylo, arllwys diod a didoli ffrwythau ar eu platiau.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Ni roddwyd barn**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant oherwydd nid oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn rhoi gweithdrefnau effeithiol yn eu lle er mwyn sicrhau bod plant yn iach a diogel. Maent wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant, ac yn gyfarwydd gyda'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes ganddynt

unrhyw bryderon am blentyn. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf paediatreg ac yn cofnodi unrhyw ddamweiniau'n briodol gan sicrhau bod rhiant yn arwyddo'r cofnodion hyn i dystio eu bod nhw wedi cael gwybod amdanynt ac yn hapus gydag unrhyw gamau a gymerwyd.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o weithdrefnau er mwyn atal lledaenu haint. Er enghraifft, maent yn annog y plant i olchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled, wrth ddilyn gweithdrefnau addas i newid clytiau ac wrth wisgo ffedogau wrth drin bwyd a brwsys dannedd. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta'n iach ac ymarfer corff yn llwyddiannus. Maent yn annog plant i fwyta ffrwythau a llysiau a sicrhau bod cyfleoedd ar gael iddynt ddatblygu eu sgiliau corfforol a threulio amser tu allan yn yr awyr iach.

Mae'r holl ymarferwyr wedi ffurfio perthnasau positif gyda'r plant. Maent yn siarad gyda'r plant yn dyner ac yn eu trin gyda gofal a pharch. Mae ymarferwyr yn defnyddio strategaethau effeithiol i hybu ymddygiad cadarnhaol. Er enghraifft, maent yn denu sylw plant at weithgaredd arall os ydynt yn cael trafferthion wrth rannu neu gymryd tro a thrwy roi esboniad clir pan nad ydy eu hymddygiad yn dderbyniol. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn ymwybodol o'r rheolau a beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt. Mae rheolau'r lleoliad wedi eu harddangos ar y wal ac mae'r rhain wedi eu ffurfio mewn partneriaeth â'r plant eu hunain, gan ddefnyddio ffotograffau ohonyn nhw. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn ymrwymo â'r rheolau gan eu bod wedi bod yn rhan o'r broses o ffurfio'r rhain ac wedi cytuno iddynt.

Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant gydag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn cynnal grwpiau iaith defnyddiol ar gyfer y plant sydd angen mwy o hyder wrth siarad Cymraeg ac yn rhoi cymorth ychwanegol effeithiol i blant ag anhawsterau iaith. Mae ymarferwyr yn cadw cofnod o gynnydd y plant er mwyn cynllunio gweithgareddau addas ar eu cyfer sy'n targedu medrau penodol yn ôl yr angen.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae gan yr ymarferwyr berthynas hyfryd gyda'r plant. Maent yn arsylwi ar beth mae'r plant yn gwneud cyn ymyrryd. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ystod eang o brofiadau cyffrous ar draws y meysydd dysgu sy'n ennyn diddordeb bron pob un plentyn yn llwyddiannus. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o asesiadau a fframwaith y cyfnod sylfaen i sicrhau dilyniant a pharhad ym medrau'r plant. Un o gryfderau'r cynllunio yw'r ffordd y mae ymarferwyr yn defnyddio deilliannau asesiadau i gynllunio camau nesaf yn y dysgu ac i herio plant ymhellach.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant ar draws y meysydd dysgu. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r ffordd y maent yn sicrhau cyfleoedd cyson i blant gael mynediad i lyfrau ac offer gwneud marciau yn yr ardaloedd dysgu. Mae hyn yn ffordd gadarnhaol o ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu cynnar y plant. Yn gyffredinol, mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau Cymraeg y plant yn llwyddiannus. Maent yn gwneud defnydd gwerthfawr o ganeuon Cymraeg fel rhan o'r drefn ddyddiol ac yn cyflwyno geirfa newydd yn ystod gweithgareddau. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro yn

rhoi digon o gyfleoedd i blant ailadrodd geirfa a phatrymau iaith newydd. Mae hyn yn llesteirio'r plant rhag gwneud y cynnydd mwyaf effeithiol wrth afael ar yr iaith. Mae'r lleoliad yn cynllunio cyfleoedd buddiol i'r plant ddysgu am Gymru a gwahanol draddodiadau fel Dydd Santes Dwynwen.

Gwneir defnydd da o gynllunio ar gyfer datblygu medrau datrys problemau, er enghraifft wrth i'r plant geisio rhyddhau anifeiliaid o floc o iâ yn yr ardal darganfod gan ddefnyddio amrywiaeth o offer. Ceir cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau corfforol a chreadigrwydd y plant, er enghraifft wrth greu symudiadau i gyd-fynd â cherddoriaeth.

Mae gan yr ymarferwyr dealltwriaeth gref o sut a phryd i ymyrryd yn chwarae'r plant. Nodwedd arbennig o dda o'r addysgu yw'r ffordd y mae ymarferwyr yn cymryd rhan weithredol yn chwarae'r plant gan ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol yn fedrus. Maent yn holi'n fedrus gan ddefnyddio ystod eang o gwestiynau agored er mwyn asesu dealltwriaeth y plant o wahanol weithgareddau a'u hannog i feddwl ac i fod yn annibynnol. Enghraifft arbennig o dda o hyn yw annog plentyn i newid dillad doli yn ofalus yn annibynnol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau moesol, cymdeithasol, ysbrydol a diwylliannol y plant yn dda. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd pwrpasol i'r plant arsylwi a gwerthfawrogi pethau byw ac i dyfu llysiau a blodau yn yr ardd. Trwy gynllunio ac ymyrraeth gofalus, maent yn sicrhau cyfleoedd cyson i'r plant gyd-chwarae'n llwyddiannus gan rannu adnoddau ac i gyd-weithio'n effeithiol.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn sicrhau bod gweithdrefnau yn eu lle er mwyn sicrhau bod unrhyw beryglon posib yn cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol. Mae asesiadau risg trylwyr yn amlinellu peryglon posib a'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cwblhau gwiriadau dyddiol o'r ardaloedd chwarae, teganau ac adnoddau ac yn cadw cofnod o unrhyw gamau pellach bydd angen eu dilyn. Pan mae unrhyw beryglon yn cael eu canfod, mae ymarferwyr yn delio gyda'r rhain yn gyflym ac yn effeithiol.

Mae'r ardaloedd chwarae yn braf, cyfforddus a chysurus ac mae digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael synnwyr o berthyn drwy arddangos esiamplau o waith y plant ar y waliau. Er enghraifft, mae oriel gelf yng nghornel yr ystafell chwarae i arddangos eu gwaith yn syth ar ôl iddynt ei gwblhau. Mae'r brif ystafell chwarae wedi ei threfnu i ardaloedd dysgu pwrpasol gydag amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau i gyfoethogi profiadau'r plant. Er enghraifft, mae llyfrau ac adnoddau wedi eu gosod i gyd-fynd â thema'r tymor, sef ' y gaeaf'. Mae'r ardal chwarae allan wedi cael ei datblygu i gynnig amrywiaeth o weithgareddau a chyfleodd pwrpasol i blant chwarae a datblygu eu medrau corfforol. Mae offer newydd wedi ei brynu a'u gosod yma sy'n ennyn diddordeb y plant yn effeithiol. Fodd bynnag, prin yw'r amrywiaeth o adnoddau a gweithgareddau sydd ar gael yn yr ardal greadigol i alluogi'r plant ddewis a symud rhwng gweithgareddau'n annibynnol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau ac offer diddorol a chyffroes ar gael yn y brif ystafell chwarae. Mae'r rhain o ansawdd da ac yn cael eu storio ar

lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae ymarferwyr yn cadw cofnod trylwyr o ba bryd mae'r ardaloedd chwarae, teganau ac adnoddau'n cael eu glanhau. Mae hyn yn digwydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr adnoddau'n lân ac mewn cyflwr da. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd da i blant ddysgu am y byd o'u cwmpas. Gwneir defnydd effeithiol o adnoddau a deunyddiau naturiol er mwyn galluogi'r plant i arbrofi a darganfod, er enghraifft wrth blannu blodau ac wrth arbrofi gyda rhew. Mae ystod eang o adnoddau gwerthfawr ar gael er mwyn hybu ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau gwahanol, fel llyfrau, dillad gwisgo i fyny, doliau a phosteri.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn cael ei reoli'n fedrus gan arweinyddion ymrwymedig. Maent yn sicrhau bod y drefn ddyddiol yn rhedeg yn effeithiol a bod gan yr holl ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o'u rolau. Er enghraifft, mae arweinwyr yn sicrhau bod gan ymarferwyr gyfle i gyd-gynllunio a chynnig syniadau ar gyfer meysydd i'w gwella yn ystod cyfarfodydd staff. Mae hyn yn ysgogi'r ymarferwyr ac yn datblygu eu hunan-werth. Mae gan y person cofrestredig weledigaeth glir sydd yn seiliedig ar ddarparu gofal o safon uchel a phrofiadau dysgu ysgogol ar gyfer y plant. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gydag ymarferwyr , rhieni a'r gymuned ehangach. Mae gan yr arweinwyr ddisgwyliadau uchel o'r ymarferwyr ac maent yn cyfleu hyn yn llwyddiannus mewn cyfarfodydd rheolaidd. Er enghraifft, mae'r arweinwyr yn atgoffa'r ymarferwyr o'r angen i fodelu'r Gymraeg ymysg y plant ac wrth gyfathrebu gyda staff eraill yn y lleoliad. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth a defnydd y plant o'r iaith Gymraeg. Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan ymarferwyr gyfleoedd buddiol yn y cyfarfodydd yma i rannu syniadau a chyd-gynllunio.

Mae gan arweinwyr drefniadau trylwyr ar gyfer recriwtio ymarferwyr. Mae gan pob un swydd ddisgrifiadau clir ac maent yn gweithredu ar eu rolau yn gydwybodol. Mae trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad yr ymarferwyr yn drwyadl. Ceir cyfleoedd gwerthfawr i ymarferwyr fyfyrio ar eu harfer ac i gynnig targedau ar gyfer gwella, er nid oes gan y lleoliad drefniadau ffurfiol i arsylwi ar yr ymarferwyr wrth eu gwaith. Mae arweinwyr yn defnyddio'r gweithdrefnau'n effeithiol i sicrhau cyfleoedd buddiol i ymarferwyr dderbyn hyfforddiant pwrpasol er mwyn gwella'u medrau. Er enghraifft, mae ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant arwyddo sydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu medrau cyfathrebu plant sydd ag anawsterau iaith a lleferydd.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn syml ac effeithiol. Gwneir arweinydd defnydd pwrpasol o weithdrefnau fel awdit o ardaloedd dysgu, cyfarfodydd staff, holiaduron rhieni a chyngor yr athrawes ymgynghorol a Mudiad Meithrin fel rhan o'r broses. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gref o gryfderau'r lleoliad a meysydd ar gyfer datblygu o ran gofal ac addysg y plant. Mae hanes da o welliant parhaus yn bodoli yn y lleoliad, er enghraifft drwy wella'r ardal allanol ac wrth ddatblygu cyfranogiad ymarferwyr wrth arsylwi a defnyddio arsylwadau plant.

Mae gan yr arweinwyr a'r ymarferwyr bartneriaeth gryf gyda rhieni ac maent yn chwilio am ffyrdd o gryfhau'r berthynas hon yn rheolaidd. Mae'r arweinwyr yn cyfathrebu gyda rhieni yn gyson drwy'r defnydd o wefannau cymdeithasol a llythyron. Maent yn darparu gwybodaeth fuddiol i rieni ar gynnydd eu plant drwy'r defnydd o

nosweithiau agored a ‘llyfrau trysor’.  Mae perthynas agos yn bodoli gyda’r ysgol sydd yn helpu plant i drosglwyddo yna yn esmwyth.

Mae’r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn o’r lleoliad ac yn weithredol wrth godi arian i barhau i wella’r ddarpariaeth ar gyfer plant.  Maent yn cwrdd yn rheolaidd ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau’r lleoliad a’r meysydd ar gyfer gwella.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/04/2019